

Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Conwy

Cylch Gorchwyl a Chyfarwyddyd Digwyddiadau

Nod

- Hyrwyddo agweddau ar ddiogelwch digwyddiad, fel digwyddiadau cymunedol a chyfarfodydd cyhoeddus eraill gyda thyrfia o bobl.
- Helpu i sicrhau nad yw unrhyw ddigwyddiad yn amharu ar iechyd, diogelwch neu les y gymuned y mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal ynddi.
- Datblygu / hyrwyddo trefniadau gweithio ar y cyd
- Sicrhau bod trefnwyr digwyddiadau yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol i gydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch perthnasol, a bod Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Conwy yn darparu gwasanaeth ymgynghorol yn unig.

Bydd y Grŵp yn:-

- gweithredu fel pwynt cyswllt, ar faterion diogelwch, i bawb sy'n bwriadu trefnu digwyddiad cyhoeddus, boed hynny ar dir preifat neu gyhoeddus, ar y briffordd, promenâd neu mewn moryd, mewndir neu ddyfroedd arfordirol
- rhoi cyngor ac arweiniad ar gyfrifoldebau penodol y trefnwyr a buddiannau asiantaethau eraill sy'n ymwneud a'r digwyddiad
- cyfeirio at agweddau ar arfer gorau er gwybodaeth y trefnwyr
- cynnal fforwm ar gyfer codi pryderon ynglŷn â materion diogelwch mewn perthynas i ddigwyddiadau mawr
- trafod a gwerthuso gwersi a ddysgwyd o gynnal digwyddiadau (drwy'r broses adrodd yn ôl)
- cynnal fforwm ar gyfer codi safonau iechyd a diogelwch digwyddiadau a gynhelir yng Nghonwy
- cadw a sicrhau bod cofnodion priodol o'i weithgareddau ar gael er mwyn cynnal y swyddogaeth hon yn effeithiol, ac i sicrhau tryloywder o ran gwneud penderfyniadau

Cylch Gorchwyl Penodol

- Cyngori ar y digwyddiad, lleoliad a'r ardal gyfagos yn ôl yr angen
- Cyngori ar weithredu pwerau deddfwriaeth iechyd a Diogelwch a Deddf Trwyddedu 2003 ar gyfer digwyddiadau a lleoliadau
- Rhoi cyngor ar gamau gorfodi a dyletswydd gofal yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill fel y'u diffinnir yn y deddfwriaeth berthnasol
- Darparu fforwm lle gall yr awdurdod lleol a phartneriaid eraill ddatblygu dull cydlynol i reoli diogelwch a lles gwylwyr a thorfeydd
- Swyddogaethau diogelwch a gwarchod y cyhoedd eraill fel y cytunir
- Derbyn adroddiadau mewn perthynas â materion a ddarganfuwyd yn ystod arolygiadau gan aelodau'r grŵp
- Derbyn gwybodaeth am unrhyw hysbysiad gwahardd ac erlyniad

Swyddogaeth y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch

- Cyngori trefnwyr digwyddiadau ar arfer gorau
- Lledaenu arfer da a chymhwysedd
- Datblygu arfer gorau, bydd trefnwyr yn cael eu cyngori i gyfeirio at gyngor ac arweiniad perthnasol, yn benodol:
 1. Canllawiau a dogfennau Diogelwch Digwyddiadau y cyfeirir atynt ar wefan yr HSE
<http://www.hse.gov.uk/event-safety/running.htm>;
 2. [The Purple Guide to Health, Safety and Welfare at Music and Other Events](http://www.thepurpleguide.co.uk/) <http://www.thepurpleguide.co.uk/>

Mae rôl y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch ar wahân i reolaeth weithredol y digwyddiad. Trefnydd y digwyddiad/ y tîm rheoli fydd yn gyfrifol yn y pen draw am gynllunio a gweithredu iechyd a diogelwch. Mae'r Grŵp yn chwarae rôl ymgynghorol yn unig, ac yn darparu cyngor annibynnol i drefnwyr digwyddiadau, sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am sicrhau digwyddiad diogel.

Fe ddylai trefnwyr digwyddiadau fod yn ymwybodol bod Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Gogledd Cymru yn disgwyl i bob digwyddiad dderbyn neu lunio'r canlynol:

- Trefniadau gwagio pan fo argyfwng
- Cynllun tywydd gwlyb neu dywydd garw
- Cyngor gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a sefydliadau / gwasanaethau eraill ynghylch yr ymateb y maent hwy yn ei ddisgwyl pan fo argyfwng yn ystod digwyddiad.

Statws y grŵp a datgan cysylltiad

- Nid yw'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch yn gallu gwneud penderfyniad ar ran yr awdurdod lleol, rôl ymgynghori yn unig sydd ganddo
- Mae'r pŵer i wneud penderfyniadau yn cael ei ddirprwyo i'r awdurdod lleol neu i eraill fel y dynodwyd (e.e. Cadeirydd y Grŵp Ymgynghorol)
- Trefnydd y digwyddiad a'r tîm rheoli fydd yn gyfrifol yn y pen draw am ddiogelwch y digwyddiad.
- Mae'n rhaid i aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol ddatgan unrhyw gysylltiad mewn perthynas ag unrhyw eitem a gyflwynir gerbron y Grŵp cyn i unrhyw drafodaeth ar y mater hwnnw cael ei chynnal. Pe gellid ystyried y cysylltiad yn un sy'n rhagfarnu, yna ddylai'r person hwnnw ystyried a ddylai dynnu'n ôl a chael ei ddisodli gan berson priodol, yn unol â chytundeb y Grŵp

Deddfwriaeth

- Nid oes gofyniad cyfreithiol ar drefnwyr digwyddiadau i gyfeirio at y rhain neu i gysylltu â'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch ond, os ydynt yn gwneud hynny, credir bod manteision sylweddol i'r trefnwyr a'r asiantaethau gorfodi o ran sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth.
- Efallai y bydd yn rhaid i'r trefnwyr gael y canlynol **cyn** y gallant gynnal y digwyddiad:
 1. Gorchymyn Cau Stryd
 2. Trwydded Eiddo (dan Ddeddf Trwyddedu 2003),
 3. Caniatâd Masnachu ar y Stryd
 4. Caniatâd Cynllunio
 5. Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant arall
 6. Caniatâd y tiffeddiannwr
- Ym mhob achos, mae'r cyfrifoldeb i gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a darpariaethau statudol perthnasol yn gyfrifoldeb ar y trefnwyr.
- Cynghorir trefnwyr yn benodol ar Reoliad 7 (Cymorth Iechyd a Diogelwch) Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 "benodi un neu fwy o bersonau cymwys i'w cynorthwyo i weithredu'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i gydymffurfio...." â deddfwriaeth a gofynion iechyd a diogelwch; a'r angen i gynnal a gweithredu canfyddiadau asesiadau risg iechyd a diogelwch priodol, fel sy'n ofynnol dan Reoliad 3 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.
- Mae cyngor pellach ar ofynion iechyd a diogelwch a sut gall y rhain gael eu bodloni gan drefnwyr digwyddiadau ar gael ar wefan yr HSE <http://www.hse.gov.uk> - cynghorir trefnwyr digwyddiadau i gyfeirio atynt a'u dilyn.
- Cynghorir trefnwyr digwyddiadau mai eu cyfrifoldeb nhw yw cydymffurfio â'r deddfwriaeth statudol berthnasol, ac nad oes gan y Grŵp bwerau statudol, dim ond y gallu i ddarparu cyngor. Nid yw'r Grŵp Ymgynghorol Diogelwch yn rhwystro unrhyw sefydliad *unigol* neu aelod o'r grŵp i arfer pwerau statudol, mae hynny yn fater ar gyfer y sefydliad perthnasol neu'r aelod yn unig.

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974

Mae'r awdurdod lleol yn "awdurdod gorfodi" fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998 ar gyfer gweithgareddau gwaith lle mae'r prif weithgaredd yn cynnwys gweithgareddau diwylliannol, adloniant neu chwaraeon.

Bydd yr awdurdod lleol yn gorfodi'r darpariaethau statudol perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles gweithwyr, aelodau o'r cyhoedd ac unrhyw berson arall yr effeithir arno gan weithgaredd gwaith. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddigwyddiadau cyhoeddus yn yr awyr agored, ac eithrio ar gyfer codi a datgymalu strwythurau neu gyfarpar a ddefnyddir yn y digwyddiad. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu gorfodi gan yr HSE. Am fanylion pellach ewch i www.hse.gov.uk/event-safety/faqs.htm.

Deddf Trwyddedu 2003

Yr awdurdod lleol yw'r "awdurdod trwyddedu" dan delerau'r Ddeddf uchod ac mae'n ofynnol iddo gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu o fewn ei ffiniau, mewn ymgynghoriad â'r awdurdodau cyfrifol mewn perthynas â'r holl weithgareddau trwyddedadwy, sy'n cynnwys: adwerthu alcohol, cyflenwi alcohol i glwb, darparu adloniant rheoledig a darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos.

Mae gan yr awdurdod trwyddedu ddyletswydd i benderfynu ar geisiadau ar gyfer trwydded eiddo a thrwydded bersonol ac ymgymryd â gweithgarwch gorfodi ac, wrth wneud hynny, yn hyrwyddo pedwar amcan Deddf Trwyddedu 2003, sef: *atal trosedd ac anhrefn, sicrhau diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus, ac amddiffyn plant rhag niwed.*

Cyfarfodydd

- Bydd y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch yn cyfarfod yn ôl yr angen, yn amodol ar adolygu a hyblygrwydd mewnol yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd
- Mae ganddo'r hawl i sefydlu is-grwpiau i ystyried digwyddiadau penodol a allai fod angen mwy o sylw.

Lleoliad

- Fel arfer yn y Swyddfeydd Dinesig ym Mae Colwyn, ond gall amrywio ar gyfer unrhyw reswm penodol (yn enwedig cyfarfodydd gyda'r trefnwyr).

Cadeirydd

- Swyddog Awdurdod Lleol

Cyfansoddiad

Bydd y rhestr ddosbarthu e-bost a ddefnyddir i gyfathrebu materion y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r sefydliadau ac adrannau a restrir isod, fel bod pawb yn ymwybodol o'r digwyddiadau sydd i'w trafod yn y cyfarfodydd. Bydd presenoldeb unrhyw sefydliad / adran benodol arall mewn cyfarfodydd y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch yn fater ar gyfer y sefydliad hwnnw / yr adran honno fel y bo'n berthnasol.

Awdurdod Lleol:

Priffyrdd (gwaith stryd, cludiant a meysydd parcio);
Rheoliadau Adeiladu;
Cynllunio Rhag Argyfwng;
Yr Adain Drwyddedu;
Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a Chorfforaethol;
Gwarchod y Cyhoedd, Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Bwyd;

Morwrol (pan fo hynny'n briodol);
Cynllunio;
Y Gyfraith;
Gwasanaethau Amgylcheddol
(gwastraff);

Heddlu Gogledd Cymru
Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
Gwylwyr y Glannau EM pan yn briodol
Y Trefnwyr - gall trefnwyr perthnasol fynychu drwy wahoddiad.

Mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i wahodd swyddogion eraill yn ôl yr angen, fel
Swyddogion Yswiriant/Rheoli Risg.

Gwneud Penderfyniadau

- Drwy gonsensws.
- Bydd yn gyfrifoldeb ar y sefydliadau a'r adrannau a enwir uchod i sicrhau bod ganddynt gynrychiolaeth berthnasol yn y cyfarfodydd fel y bo'n briodol ac i sicrhau eu bod yn darparu sylwadau perthnasol yn y cyfarfodydd neu cyn hynny.

Pwerau

- Mae aelodau o'r grŵp yn gyfrifol am reoli eu hadnoddau eu hunain ac unrhyw bŵer statudol sydd ganddynt.

Ysgrifenyddiaeth

- Bydd Cyngor Conwy yn darparu cymorth gweinyddol.

Rhaglen

- Bydd rhaglenni cyfarfodydd yn cael eu cylchredeg o leiaf 5 niwrnod cyn y cyfarfod.
- Bydd cofnodion o'r prif bwyntiau gweithredu yn cael eu cylchredeg i aelodau o'r Grŵp o fewn 10 diwrnod gwaith o gyfarfodydd.

Adolygwyd 11 Gorffennaf 2014
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy